

technocamps

Inspiring | Creative | Fun

Ysbrydoledig | Creadigol | Hwyl



Open CV Awgrymiadau Defnyddiol



Mae OpenCV, a ddatblygwyd yn wreiddiol gan Intel, yn llyfrgell ffynhonnell agored fawr C++ i brosesu delweddau a golwg cyfrifiadurol. Mae ganddo gannoedd o swyddogaethau ac algorithmau wedi'u gosod y gallir eu defnyddio i gynnal prosesu delweddau amser real. Gan fod gan OpenCV gymaint o swyddogaethau wedi'u gosod, mae'n gwneud y broses o ddatblygu eich rhaglenni golwg cyfrifiadurol eich hun yn rhwydd a byddwch yn magu hyder wrth ei ddefnyddio.

Gallwch lawrlwytho OpenCV am ddim o:

<http://opencv.org/downloads.html>

Gellir lawrlwytho'r feddalwedd i Windows, Mac neu Linux.

Beth yw Golwg Cyfrifiadurol?

Golwg cyfrifiadurol yw'r ddealltwriaeth o gynhyrchu a phrosesu delweddau a dadansoddi delweddau. Cysylltir y maes hwn yn naml â datblygu technoleg a Deallusrwydd Artiffisial, gan gydnabod, adnabod a rhyngweithio ag amgylchedd peiriant.

Yn aml mae golwg cyfrifiadurol yn ceisio dyblygu'r ffordd y mae'r llygad dynol yn gweithio, y ffordd y gallir creu technegau prosesu delweddau penodol ac amgylcheddau modelu, effeithiau a'r fathemateg a ddefnyddir wrth ddefnyddio systemau a meddalwedd golwg cyfrifiadurol.

Mae golwg cyfrifiadurol yn chwarae rôl fawr ym maes prosesu delweddau meddygol, gan gynorthwyo i roi diagnosis i gleifion, ymchwil a gwella dealltwriaeth o gyflyrau neu driniaethau penodol.

Open CV	Swyddogaeth	Disgrifiad
	<pre>cv::namedWindow() cv::imshow() cv::waitKey() cv::destroyWindow() cv::Scalar() cv::blur() cv::Size() cvtColor()</pre>	<p>Creu ffenest ac yn rhoi enw iddi</p> <p>Dangos y ffenest a'i chynnwys</p> <p>Rhoi saib yn y rhaglen tan y ceir mewnbwn y defnyddiwr</p> <p>Dinistrio'r holl ffenestri a grëwyd</p> <p>Lluosi fectorau i gynyddu maint</p> <p>Pylu'r ddelwedd i ddileu unrhyw sŵn</p> <p>Caniatáu i basio maint petryal neu ddelwedd</p> <p>Trosi delwedd o un lliw i liw arall</p>

Allwedddeiriau Rhaglennu	Allweddair	Disgrifiad
	<p>Swyddogaeth</p> <p>Paramedr</p> <p>Newidyn</p> <p>Matrics Delwedd</p> <p>Ffenest</p> <p>Hidlydd</p> <p>Sŵn</p>	<p>Bloc o god a chanddo enw y gellir ei aildefnyddio.</p> <p>Newidyn a gaiff ei basio i swyddogaeth.</p> <p>Lleoliad storio gyda math ac enw.</p> <p>Ffordd o storio gwybodaeth am ddelwedd.</p> <p>Ffrâm lle dangosir cynnwys.</p> <p>Techneg i newid edrychiad delwedd.</p> <p>Amrywiaeth ar hap o ddisgleirdeb neu liw mewn delwedd.</p>

Peidiwch ag anghofio anfon eich prosiectau enghreifftiol atom! Gallem hyd yn oed eu dangos ar ein gwefan neu ar ein tudalen Facebook!

technocamps



www.technocamps.com

